# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

## RHAN 2

TRWYDDEDU SAFLEOEDD CARTREFI SYMUDOL ETC.

*Torri amod*

### 22 Camau o dan adran 20 neu 21: pŵer i hawlio treuliau

(1) Pan fo awdurdod lleol yn cymryd camau o dan adran 20 neu gamau brys o dan adran 21, caiff yr awdurdod lleol godi tâl ar berchennog y tir fel modd i adennill treuliau yr aed iddynt gan yr awdurdod lleol—

- (a) wrth benderfynu a ddylai gymryd y camau,
- (b) wrth baratoi a chyflwyno unrhyw hysbysiad o dan adran 20 neu 21 neu hawliad o dan is-adran (6), ac
- (c) wrth gymryd y camau.

(2) Mae'r treuliau y cyfeirir atynt yn is-adran (1) yn cynnwys treuliau sicrhau cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol) (ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain).

(3) Yn achos camau brys o dan adran 21, ni chaniateir codi tâl o dan is-adran (1) tan unrhyw adeg (os oes un) a bennir yn unol ag is-adran (4).

(4) At ddibenion is-adran (3), yr adeg pan ganiateir i dâl gael ei godi am gamau brys yw—

- (a) os na ddygir apêl yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i gymryd y camau brys o dan adran 21(9) o fewn y cyfnod apelio o dan adran 23, diwedd y cyfnod hwnnw, a
- (b) os dygir apêl o'r fath ac os yw'r penderfyniad ar yr apêl yn cadarnhau penderfyniad yr awdurdod lleol—
  - (i) os yw'r cyfnod pryd y caniateir dwyn apêl i'r Tribiwnlys Uwch yn dod i ben heb i apêl o'r fath gael ei dwyn, diwedd y cyfnod hwnnw, a
  - (ii) os dygir apêl i'r Tribiwnlys Uwch, pan roddir penderfyniad ar yr apêl sy'n cadarnhau penderfyniad yr awdurdod lleol.

(5) At ddibenion is-adran (4)—

(a) mae tynnu apêl yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod lleol yn ôl yn creu'r un effaith â phenderfyniad ar yr apêl sy'n cadarnhau penderfyniad yr awdurdod lleol, a

(b) mae cyfeiriadau at benderfyniad ar yr apêl sy'n cadarnhau penderfyniad yr awdurdod lleol yn gyfeiriadau at benderfyniad sy'n cadarnhau'r penderfyniad hwnnw ag amrywiadau neu heb amrywiadau.

(6) Mae'r pŵer o dan is-adran (1) yn arferadwy drwy gyflwyno i berchennog y tir hawliad am y treuliau—

(a) sy'n nodi cyfanswm y treuliau y mae'r awdurdod lleol yn ceisio eu hadennill o dan is-adran (1) ("treuliau perthnasol"),

(b) yn nodi dadansoddiad manwl o'r treuliauperthnasol,

(c) os yw'r awdurdod lleol yn bwriadu codi llog o dan adran 25, yn nodi'r gyfradd log ar y treuliau perthnasol, a

(d) yn esbonio'r hawl i apelio a roddir gan is-adran (7).

(7) Caiff perchennog tir y cyflwynir hawliad iddo o dan yr adran hon apelio at dribiwnlys eiddo preswyl yn erbyn yr hawliad (gweler adran 23).

(8) Rhaid i hawliad o dan yr adran hon gael ei gyflwyno—

(a) yn achos camau o dan adran 20, cyn diwedd y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau â'r dyddiad y cafodd y camau eu cwblhau, a

(b) yn achos camau brys o dan adran 21—

(i) cyn diwedd y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau â'r dyddiad cynharaf (os oes un) y caniateir i dâl gael ei godi yn unol ag is-adran (4), neu

(ii) os nad yw'r camau wedi eu cwblhau erbyn diwedd y cyfnod hwnnw, cyn diwedd y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau â'r dyddiad y cwblheir y camau.